



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

4 HYDREF 2017

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Argymhellion Estyn - Adroddiad Cynnydd

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortium Gogledd Cymru (Estyn, Ebrill 2016).

### 2.0 Ystyriaethau

2.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn y bythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016.

2.2 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar eu canfyddiadau a oedd yn cynnwys y 6 argymhelliad hyn:

- **A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
- **A2:** Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3:** Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4:** Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5:** Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6:** Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu priso'n llawn.

2.3 Mae Cynllun Gweithredu ôl-arolwg ar waith ac wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes Rhanbarthol.

---

2.4 Mae'r Adroddiad Cynnydd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn yr argymhellion.

### **3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

### **4.0 Goblygiadau Ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

### **5.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### **6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### **7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

### **8.0 Atodiadau**

8.1 Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd (Hydref 2017)

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.